O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2461 (Cy. 269)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r drafffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r drafffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r

gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 24 (Coldra) yn Ninas Casnewydd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin i drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o'r drafford.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod parhad y Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Medi 2012

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.